**Llenyddiaeth Cymru – Cynllun Mentora i Awduron**
**Canllawiau i ymgeiswyr ar gyfer Mentora 2020**

**Darllenwch y canllawiau diwygiedig isod cyn cwblhau'r ffurflen gais ar gyfer Mentora 2020.**

**Y Cynllun**

Dyfernir lleoedd ar y **Cynllun Mentora i Awduron** i awduron newydd ar ddechrau eu gyrfa fel awdur. Gall egin awduron berthyn i unrhyw grŵp oedran. Mae'r cynllun yn cynnig cymorth a chyngor ymarferol i awduron, er mwyn datblygu gwaith penodol sydd ar y gweill i safon cyhoeddi. Mae cynllun Mentora 2020 wedi'i ymestyn a bydd yn dechrau gyda chwrs preswyl wythnos (6 niwrnod/5 noson) yn Nhŷ Newydd ar **2-7 Mawrth 2020**. Yn y misoedd yn dilyn y cwrs ceir sesiynau unigol un-wrth-un gyda mentor.

*Cyfle newydd ar gyfer 2020. Caiff un lle ar y Cynllun Mentora ei glustnodi ar gyfer egin awdur/cyfieithydd, yn gweithio ar gyfieithu llenyddol o Gymraeg i Saesneg NEU o Saesneg i Gymraeg.

Yn eich cais, bydd angeni chi nodi yn glir:

- Sut byddai mentora yn cynorthwyo eich datblygiad fel awdur ar yr adeg hon yn eich gyrfa fel awdur
  a) Gyda'r gwaith ar y gweill penodol hwn (uchafswm 250 o eiriau)
  b) Gyda'ch ysgrifennu creadigol yn gyffredinol (uchafswm 250 o eiriau)
- 3 amcan allweddol, sydd â chanlyniadau gellir eu mesur, y disgwylir eu cyflawni o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun mentora hwn. (Gallai enghreifftiau gynnwys: cwblhau draft terfynol, paratoi llythyr cyflwyno i asiant/cyhoeddwr, cymorth i ffeindio asiant, cysylltu â chyhoeddwyr arfaethedig).

**Sut gall y cynllun helpu?**

Gall awduron ofyn am gymorth er mwyn datblygu **un** gwaith penodol sydd ar y gweill. Noder y genres cymwys isod.

- Barddoniaeth
- Rhyddiaith
- Llenyddiaeth plant
- Llenyddiaeth ar gyfer Oedolion Ifainc
- Ffeithiol greadigol (yn cynnwys bywgraffiadau/cofiannau, beirniadaeth lenyddol)
- Nofelau graffeg
- Cyfieithu llenyddol: Saesneg i Gymraeg NEU o Gymraeg i Saesneg ar gyfer un gwaith ar y gweill, yn unrhyw un o'r genres uchod

**Canlyniadau a ddisgwylir:**

Erbyn diwedd y cyfnod mentora dros 12 mis, disgwylir i'r awdur sydd wedi ei fentora fod

- wedi dilyn arweiniad a chyngor y mentor
- wedi datblygu'r gwaith ar y gweill, a ddylai gyrraedd safon cyhoeddi

- wedi adrodd yn ôl ar y datblygiad tuag at gyflawni'r tri amcan allweddol a gytunwyd ar ddechrau'r cyfnod mentora

Nid yw cyhoeddi gwaith yn amod ar gyfer dyfarniad mentora, ac nid oes angen cytundeb cyhoeddi er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun.
Fe all buddiannau eraill i awduron sy'n cymryd rhan yn y cynllun gynnwys: derbyn cyngor arbenigol unigol ar fod yn awdur yng Nghymru; y byd cyhoeddi yng Nghymru a'r DU; perfformio (os yn berthnasol); datblygu gyrfa fel awdur.

**Caiff ymgeiswyr llwyddiannus gynnig:**

- Lle di-dâl (ac eithrio costau teithio) ar gwrs preswyl Mentora am wythnos a gynhelir yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd ar **2-7 Mawrth 2020.** Mae mynychu'r cwrs yn amod o dderbyn y cynnig mentora.
- Bydd derbynnydd y lle mentora ar gyfer cyfieithu llenyddol yn derbyn lle di-dâl ar gwrs preswyl penwythnos a drefnir gan National Writing Centre, yn Norwich ar **17-19 Ionawr 2020.** Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn derbyn cyfraniad at gostau teithio i fynychu'r penwythnos preswyl hwn yn Norwich. Yn ogystal, cynigir lle di-dâl ar gwrs preswyl Mentora a gynhelir yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd ar **2-7 Mawrth 2020**. Mae mynychu'r cwrs penwythnos a'r cwrs Mentora yn amod o dderbyn y cynnig mentora.
- Yn dilyn y cwrs, cynigir cymorth pellach ar ffurf hyd at **3** sesiwn mentora un-ac-un gyda mentor, neu trwy sesiynau o hirbell achlysurol (ffôn/arlein). Bydd y mentor yn gallu cynnig awgrymiadau a beirniadaeth adeiladol er mwyn helpu i ddatblygu'r gwaith. Disgwylir i awduron a fydd yn derbyn lle ar y cynllun mentora roi amser rhwng sesiynau tiwtora er mwyn datblygu'r gwaith ar y gweill. Telir ffioedd y Mentor gan nawdd y cynllun.
- Telir cyfraniad at gostau teithio'r awdur sy'n derbyn mentora, i fynychu'r sesiynau mentora, ar ôl iddynt anfon adroddiad adborth ynghyd â ffurflen gostau teithio.
- Detholir Mentorwyr o dîm o awduron sefydledig a thiwtoriaid ysgrifennu creadigol sydd â phrofiad o fentora. Gellir recriwtio tiwtoriaid cyrsiau ysgrifennu creadigol yn Nhŷ Newydd yn ogystal.

**Cymhwyster**

**Gwaith ar y gweill:**
Rhaid i ymgeiswyr anfon <u>un</u> gwaith ar y gweill yn unrhyw un o'r genres cymwys; nodir gofynion penodol isod:

**Rhyddiaith** [nofelau, straeon byrion, llenyddiaeth i blant, ffuglen i oedolion ifainc, ffeithiol greadigol] **N.B. Straeon byrion:** bydd angen cyflwyno mwy nag un stori fer, ynghyd â chrynodeb o'r casgliad.
5000 o eiriau(isafswm), 8,000 words (uchafswm) ynghyd â chrynodeb.
**Ffuglen i blant / Ffuglen i oedolion ifainc**
5,000 o eiriau o ryddiaith(isafswm), 8,000 words (uchafswm ynghyd â chrynodeb.. Os yw eich cyfrol arfaethedig yn llai na 5,000 o eiriau, dylid anfon draft cyflawn.
**Barddoniaeth** 10 cerdd ynghyd â chrynodeb.
**Nofel graffeg:** 10 tudalen o'r gwaith ar y gweill (testun a "storyboard") ynghyd â chrynodeb.

**Llythyr Cefnogaeth**
**Rhaid** i'r cais gynnwys llythyr cefnogaeth i gefnogi'r cais mentora gan **un** o'r isod:

- Cyhoeddwr dilys/cydnabyddedig **NEU** diwtor proffesiynol ysgrifennu creadigol a (e.e. Tŷ Newydd, Arvon, Moniack Mhor) **NEU** a Mentor Llenyddiaeth Cymru, **NEU** ddarlithydd Prifysgol.
- Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer mentora cyfieithu llenyddol gynnwys llythyr cefnogaeth gan olygydd, NEU gyhoeddwr dilys/cydnabyddedig, NEU diwtor ysgrifennu creadigol, NEU diwtor cyfieithu proffesiynol.
- Rhaid i'r unigolyn sy'n darparu'r llythyr geirda fod wedi darllen eich gwaith ar y gweill a anfonir gyda'ch cais a gallu chyfeirio ta y gwaith hwn yn y llythyr.
- **Ni fydd y cais yn gyflawn nac yn gymwys heb lythyr o gefnogaeth gan gyhoeddwr dilys NEU gan diwtor proffesiynol ysgrifennu creadigol, NEU diwtor cyfieithu proffesiynol .** [Nid oes angen cytundeb ffurfiol gyda'r cyhoeddwr i gyhoeddi'r gwaith ar y gweill er mwyn bod yn gymwys i ymgeisio.]

- Gall awduron sydd yn preswylio yng Nghymru gydol y flwyddyn ymgeisio. Mae awduron sydd â gwaith ar y gweill yn y Gymraeg sy'n byw tu allan i Gymru hefyd yn gymwys i ymgeisio. Dylid cysylltu â Llenyddiaeth Cymru ynglŷn â chwestiynau cymhwyster cyn ymgeisio'n ffurfiol. Gellir gofyn i ymgeiswyr am dystiolaeth preswyliad.
- Mae'r Cynllun Mentora yn agored i awduron newydd ar ddechrau eu gyrfa ysgrifennu. Rhoddir blaenoriaeth i awduron nad sydd wedi cyhoeddi eu gwaith.
- Ni ellir ymgeiswyr llwyddiannus dderbyn lle ar y cynllun mwy nag un waith mewn unrhyw gyfnod o dair blynedd.

**Pa nawdd sydd ar gael?**
Gall y Cynllun Mentora gefnogi hyd at ddeg awdur y flwyddyn, yn ddibynnol ar y nawdd sydd ar gael.
Telir ffioedd a chostau teithio Mentorwyr gan nawdd y cynllun, ac fe weinyddir y taliadau gan Llenyddiaeth Cymru.

**Cwrs Preswyl Mentora Llenyddiaeth Cymru (Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd)**
Bydd awduron sy'n cael cynnig lle ar y Cynllun Mentora hefyd yn derbyn lle am ddim (wedi' noddi'n llawn, ac eithrio costau teithio) ar gwrs preswyl Mentora, a gynhelir yng Nghanolfan ysgrifennu Tŷ Newydd ar **2-7 Mawrth 2020. (Pnawn Llun – bore Sadwrn).**
Disgwylir i'r awduron sy'n derbyn lle ar y cwrs Mentora dalu am eu costau teithio i Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd ac yn ôl adre, ar gyfer y cwrs mentora.

**Cwrs preswyl cyfieithu (penwythnos) National Centre for Writing (Norwich)**
- Bydd derbynnydd y lle mentora ar gyfer cyfieithu llenyddol yn derbyn lle di-dâl ar gwrs preswyl penwythnos a drefnir gan National Writing Centre, yn Norwich ar **17-19 Ionawr 2020**. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn derbyn cyfraniad at gostau teithio i fynychu'r penwythnos preswyl hwn yn Norwich. Yn ogystal, cynigir lle di-dâl ar gwrs preswyl Mentora a gynhelir yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd ar **2-7**

**Mawrth 2020.** Mae mynychu'r cwrs penwythnos a'r cwrs Mentora yn amod o dderbyn y cynnig mentora.

**Sesiynau unigol**
Yn dilyn y cwrs, y patrwm arferol fyddai trefnu hyd at **dri** sesiwn hanner niwrnod gyda'ch mentor, dros gyfnod penodol o amser. Rhaid cwblhau'r holl sesiynau mentora erbyn diwedd Ionawr 2021.
Bydd awduron sy'n cael eu mentora yn derbyn cyfraniad tuag at gostau teithio i'r sesiynau mentora, wedi anfon adroddiad adborth ynghyd â ffurflen gostau teithio.

**Taliadau** - Gweinyddir taliadau i fentorwyr ac awduron sy'n cael eu mentora gan Llenyddiaeth Cymru. Telir costau teithio awduron sy'n derbyn mentora ar ôl derbyn adroddiad adborth, a ffurflen gostau wedi ei chwblhau.
Os na chwblheir unrhyw sesiynau mentora, ni fydd yr awdur yn derbyn unrhyw gostau teithio.
Telir ffioedd Mentorwyr wedi derbyn adroddiad adborth a ffurflen gostau wedi'I chwblhau.
Os na all mentor gyflawni'r holl sesiynau mentora, ni thelir unrhyw ffioedd na chostau pellach.

**Y broses ddethol a phenderfynu**
Ceir un dyddiad cau yn flynyddol. Bydd hwn yr un dyddiad â dyddiad cau ceisiadau am Ysgoloriaethau i Awduron. Caiff ceisiadau Mentora eu hasesu gan Banel Ysgoloriaethau Llenyddiaeth Cymru, ar yr un pryd â'r ceisiadau Ysgoloriaethau.
Bydd y Panel Ysgoloriaethau yn cwrdd ar ddiwedd y cyfnod asesu, tri mis ar ôl y dyddiad cau (Tachwedd). Bydd pob ymgeisydd yn derbyn llythyr yn eu hysbysu ynglŷn â phenderfyniad y Panel Ysgoloriaethau o fewn chwech wythnos o'r cyfarfod (erbyn diwedd Rhagfyr). Tybir y cyhoeddir y canlyniad o fewn saith wythnos i'r cyfarfod Panel (Ionawr 2020). Gellir nodi rhesymau pam na fu awdur yn llwyddiannus, os gofynnir. *Fe all yr amserlen hon newid.*

**Yn ôl pa feini prawf caiff ceisiadau eu beirniadu?**
Cynigir lle ar y cynllun mentora ar sail safon y cais, ac fe gymerir i ystyriaeth effaith cymorth beirniadol ar bwynt allweddol yng nghyrfa'r awdur.
Seilir penderfyniadau'r Panel ar nifer o ffactorau:

- Ansawdd llenyddol y gwaith ar y gweill anfonwyd gyda'r cais
- Cryfder y cais wrth gyflwyno'r achos sut byddai mentora yn cyfrannu at ddatblygiad yr yngeisydd fel awdur ar yr adeg cychwynnol hwn yn eu gyrfa
- Yr angen i gefnogi a hyrywddo ystod o waith newydd yng Nghymru
- gwerth yr argymhelliad gan gyhoeddwr cydnabyddedig **NEU** diwtor proffesiynol ysgrifennu creadigol**.** Ni ellir derbyn ceisiadau gan hunan-gyhoeddwyr posibl.
- Mae Llenyddiaeth Cymru yn rhan o Gynllun Bwrsariaethau Creadigol Weston Jerwood, sy'n cefnogi sefydliadau celfyddydol i wella eu dulliau recriwtio a datblygu talent. Rydym wedi ymrwymo i groesawu ymgeiswyr o ystod helaeth o gefndiroedd, sy'n cynnwys asesu ceisiadau yn rhannol ar sail eu potensial.

Ceir 10 lle ar Gynllun Mentora 2020. Detholir 4 ymgeisydd o'r broses ymgeisio agored. Caiff un o'r pedwar lle hyn ei glustnodi ar gyfer egin awdur/cyfieithydd llenyddol. Yn ogystal, detholir 6 derbynnydd Ysgoloriaeth 2020 gan y Panel Ysgoloriaethau ar gyfer y cynllun Mentora yn ogystal.

**Sut i ymgeisio**

**Rhaid cyflwyno 5 dogfen drwy ebost. Dylid anfon 1 neges ebost gyda 5 atodiad, gan gynnwys eich enw yn nheitl pob dogfen (ac eithrio'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth).**

1. **Ffurflen Gais Mentora 2020**, wedi' chwblhau
2. **Sampl o'r gwaith ar y gweill** ar gyfer mentora.
3. **Crynodeb** o'r gwaith ar y gweill
4. **Rhaid** i'r cais gynnwys **llythyr cefnogaeth** i gefnogi'r cais mentora **NAILL AI** gan gyhoeddwr dilys **NEU** gan diwtor proffesiynol ysgrifennu creadigol (e.e. Tŷ Newydd, Arvon, darlithydd Prifysgol], sydd wedi darllen eich gwaith ar y gweill a anfonwyd gyda'r cais.
5. **Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.** Anhysbys. Ni ddylid ychwanegu eich enw i deitl y ffurflen hon.

**Ni fydd y cais yn gyflawn nac yn gymwys heb lythyr o gefnogaeth gan olygydd / cyhoeddwr dilys NEU gan diwtor ysgrifennu creadigol.** [**Nid oes** angen cytundeb ffurfiol gyda'r cyhoeddwr i gyhoeddi'r gwaith ar y gweill er mwyn bod yn gymwys i ymgeisio.]

**Ymgeiswyr mentora cyfieithu llenyddol**

**Rhaid cyflwyno 5 dogfen drwy ebost. Dylid anfon 1 neges ebost gyda 5 atodiad, gan gynnwys eich enw yn nheitl pob dogfen (ac eithrio'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth).**

1. **Ffurflen Gais Mentora 2020**, wedi' chwblhau
2. **Sampl o'r gwaith ar y gweill** ar gyfer mentora. Dylai ymgeiswyr ar gyfer y lle cyfieithu llenyddol anfon sampl o'r gwaith ar y gweill sydd, yn ogystal â chopi o'r testun cyfatebol yn yr iaith wreiddiol.
3. **Crynodeb** o'r gwaith ar y gweill
4. **Rhaid** i'r cais ar gyfer mentora cyfieithu llenyddol gynnwys **llythyr cefnogaeth** i gefnogi'r cais mentora **NAILL AI** gan olygydd, NEU gyhoeddwr dilys/cydnabyddedig NEU gan diwtor proffesiynol ysgrifennu creadigol neu gyfieithu, sydd wedi darllen eich gwaith ar y gweill a anfonwyd gyda'r cais.
5. **Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.** Anhysbys. Ni ddylid ychwanegu eich enw i deitl y ffurflen hon.

**Ni fydd y cais yn gyflawn nac yn gymwys heb lythyr o gefnogaeth gan olygydd / cyhoeddwr dilys NEU gan diwtor ysgrifennu creadigol neu diwtor cyfieithu proffesiynol.** [**Nid oes** angen cytundeb ffurfiol gyda'r cyhoeddwr i gyhoeddi'r gwaith ar y gweill er mwyn bod yn gymwys i ymgeisio.]

**Anfon eich cais**

- Rhaid anfon ceisiadau ynghyd â'r dogfennau ategol **drwy ebost** i Llenyddiaeth Cymru, at y cyfeiriad ebost penodol: Cais@llenyddiaethcymru.org **NEU** Apply@literaturewales.org **Peidiwch anfon eich cais at unrhyw gyfeiriad ebost arall yn Llenyddiaeth Cymru**
- Noder nad oes modd derbyn ceisiadau personol tu hwnt i oriau craidd y swyddfa: Llun – Gwener 9.30 am – 5.00 pm.
- Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod y cais yn cyrraedd Llenyddiaeth Cymru erbyn **5.00 pm** ar y dyddiad cau. Ni dderbynnir ceisiadau hwyr.
- Ni all Llenyddiaeth Cymru dderbyn cyfrifoldeb am geisiadau na dderbynnir.
- Byddwn yn cydnabod eich cais drwy lythyr. Ni all Llenyddiaeth Cymru dderbyn cyfrifoldeb am ddogfennau gwreiddiol a aiff ar goll.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Mentora 2020:**
**5.00 pm DYDD MAWRTH 10 MEDI 2019**

Anfonwch eich cais at:
Cais@llenyddiaethcymru.org **NEU** Apply@literaturewales.org

Canolfan Glyn Jones, Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd
CF10 5AL
ffôn: 029 2047 2266
post@llenyddiaethcymru.org www.llenyddiaethcymru.org

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Caiff yr wybodaeth a ddarperir gennych ei wirio, i sicrhau bod y cais yn gymwys ar gyfer ein nawdd.

Caiff y data personol rydych yn ei ddarparu yn **y ffurflen gais** ei brosesu gan Llenyddiaeth Cymru er mwyn gweinyddu eich cais am nawdd. Cedwir y data hwn trwy gyfnod y broses ymgeisio, ac am gyfnod rhesymol ar gyfer adrodd yn ôl a gwerthuso. Mae'r data a ddarperir yn y **Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** yn anhysbys, ac fe'i defnyddir at ddibenion monitro yn unig.

Byddwch yn derbyn llythyr cydnabod. Os nad yw'r cais yn gymwys, neu os yw'n anghyflawn, byddwn yn cysylltu â chi.

**Amserlen**

Ceir un dyddiad cau blynyddol ar gyfer ymgeisio.

Cyfnod asesu: Pedwar mis yn dilyn y dyddiad cau. (Medi-Rhagfyr).

Dyfarniadau yng nghyfarfod blynyddol y Panel Ysgoloriaethau (Tachwedd).

Cynigion i ymgeiswyr llwyddiannus o fewn pedair wythnos ar ôl cyfarfod y Panel Ysgoloriaethau (ddiwedd Tachwedd/dechrau Rhagfyr).

Hysbysir pob ymgeisydd trwy lythyr o fewn chwech wythnos ar ôl cyfarfod Panel Ysgoloriaethau.

Cyhoeddir dyfarniadau o fewn saith wythnos yn dilyn cyfarfod y Panel Ysgoloriaethau. (Ionawr 2020)

Bydd y Cynllun Mentora yn dechrau gyda chwrs preswyl arbennig ar **2-7 Mawrth 2020.** Penodir mentorwyr ar gyfer y sesiynau unigol yn ystod Ebrill - Mehefin 2020. Rhaid cwblhau'r holl sesiynau unigol erbyn diwedd Ionawr 2021.

***Fe all y dyddiadau yn yr amserlen hon newid.***

**Llenyddiaeth Cymru** yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

Cefnogir Ysgoloriaethau Llenyddiaeth Cymru a Chynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru gan Y Loteri Genedlaethol drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru